

Adroddiad Blynyddol 2021/22



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Gair gan ein Cadeirydd, M. Wynn Thomas



'Beibl i bawb o bobl y byd': dyna'r arwyddair a fabwysiadwyd gan Feibl Gymdeithas Prydain Fawr yn dilyn taith arwrol Mary Jones i'r Bala, er mwyn cyrchu Beibl iddi hi ei hun.

Mae'n amhosib dychmygu'r fath daith yn digwydd y

dyddiau hyn. Ond yn hytrach na gorfod chwilio am lyfr, mae plant Cymru benbaladr newydd gael y cyfle i dderbyn llyfr yr un am ddim yn anrheg, diolch i haelioni'r llywodraeth genedlaethol ac i weithgarwch dihafal y Cyngor Llyfrau. Dyma'r enghraifft ddiweddaraf o'r chwyldro ym maes darllen y bu'r Cyngor yn gyfrifol amdano dros y blynyddoedd diwethaf – cyfnod eithriadol helbulus a phryderus. Mae'n parhau'n anrhydedd i fi fedru arddel perthynas â'r fath gorff. Ond yr her sy'n ein hwynebu'n awr yw cynnal, ac ehangu os bydd modd, y rhaglen arloesol, oleuedig hon wrth i'r sefyllfa ariannol waethygu.


Mae mawr angen amrywiaeth helaeth o destunau er mwyn i'r Cyngor fedru gwasanaethu'r Gymru amlldiwylliannol newydd y mae'r genedl o'r diwedd yn ei gwir gydnabod, ei gwerthfawrogi, a'i dathlu. Cyhoeddwyd dogfen chwyldroadol, heriol gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar yn dwyn y teitl 'Cymru Wrth-hiliol', dogfen sy'n cynnwys cynllun manwl o'r camau allweddol i'r cyfeiriad hwnnw y mae'n rhaid eu cymryd. Mae Bwrdd Rheoli y Cyngor, ar y cyd â phob aelod o'r staff, wedi elwa'n ddirfawr o wrando ar gyflwyniad golau o brif bwytiau'r ddogfen gan arbenigwraig yn y maes, ac rwy'n falch fod Tîm Rheoli ac Ymddiriedolwyr y Cyngor wedi rhoi ymrwymiad clir i ehangu mynediad

i'r sector cyhoeddi a chynyddu cynrychiolaeth mewn llenyddiaeth wrth wraidd strategaeth y Cyngor am y pum mlynedd nesaf. Mae'r Cyngor wedi cychwyn o ddiffri ar y gwaith o gymryd y camau allweddol i sicrhau bod y cynllun yn wir weithredol ym mhob agwedd ar ei waith.

Ar waethaf yr heriau difrifol y bu'n rhaid eu hwynebu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, y mae staff ymroddedig y Ganolfan Ddosbarthu wedi llwyddo i gyflawni eu gwaith yn rhyfeddol. Er yr holl anawsterau, llwyddwyd i ddarparu gwasanaeth o ansawdd mor eithriadol fel bod y Ganolfan ar ddiwedd y flwyddyn wedi gwneud elw. Mae hwn yn llwyddiant ardderchog ar ran adran nad yw'n derbyn unrhyw arian cyhoeddus am ei gwasanaethau dosbarthu.

Bellach mae'r Cyngor wedi hen ennill ei blwy' fel sefydliad cenedlaethol allweddol, ac fel un o brif asedau ein diwylliant. Mae felly yn adeg briodol i fi roi'r gorau i fod yn Gadeirydd. Dros yr ugain mlynedd diwethaf, rwy wedi cael y pleser a'r fraint o wyllo datblygiad syfrdanol y Cyngor, a hynny o'r sêd flaen. Ces ei weld yn ymestyn ei gyrhaeddiad diwylliannol ac yn amlhau ei wasanaethau, ac fe ryfeddais at ei hyblygrwydd yn ymaddasu ar gyfer gofynion ein diwylliant digidol. Mae wedi bod yn anrhydedd digymysg ar hyd y blynyddoedd i gael bod yn Gadeirydd y fath gorff. Ac mae wedi bod yn addysg gwylio tri Chyfarwyddwr ysbrydoledig wrth eu gwaith, pob un yn ufudd i weledigaeth genedlaethol a phob un yn gwneud cyfraniad digymar. Rwy hefyd wedi cael gorolwg unigryw ar ddiwydrwydd a dyfeisgarwch ein diwylliant cyhoeddi ni yng Nghymru, a'i weithgarwch amlochrog. Ac nid oes pall ar fy edmygedd o staff y Cyngor, ac o'u hymroddiad dan amgylchiadau digon heriol ar brydiau. Yn olaf, mae arnaf ddiolch hefyd i'r holl wirfoddolwyr sy wedi bod mor barod i gynnig eu hamser a'u sgiliau i wasanaethu ar baneli'r Cyngor, a hynny heb yr un mymryn o dâl. Ac mae cydweithio ar

bwyllgorau â chynifer o ddoniau amlwg, yn fwyaf arbennig y rheini a fu'n gwasanaethu fel trysoryddion, ysgrifenyddion ac Is-gadeiryddion, wedi bod yn gynhaliath ddibynadwy ar hyd y blynyddoedd. Diolch o waelod calon i chi i gyd, a bydded i'ch gwaith allweddol, ysbrydoledig barhau am yn hir eto. **M. Wynn Thomas**



Helgard Krause, y Prif Weithredwr, yn bwrw golwg yn ôl dros y flwyddyn ddiwethaf



Bu'r flwyddyn ariannol ddiwethaf yn un anghyffredin mewn cynifer o ffyrdd, nid lleiaf oherwydd ein bod wedi dathlu 60 mlynedd ers ein sefydlu trwy gyhoeddi ein hanes hyd yma, comisiynu ffilm fer i ddathlu'r sector

rydym yn ei gefnogi, yn ogystal â lansio ein cynllun strategol pum mlynedd newydd.

Hon hefyd oedd yr ail flwyddyn o fyw a gweithio dan yr amodau a gyflwynwyd yn sgil Covid. Dyma'r flwyddyn gyntaf i'r Cyngor Llyfrau weithredu fel Sefydliad Corfforedig Elusennol, yn cael ei lywodraethu gan Fwrdd Ymddiriedolwyr newydd, gyda'r Athro Charlotte Williams yn traddodi'r prif anerchiad agoriadol yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol cyntaf. Hon oedd y flwyddyn pryd y cwblhawyd ein proses o ailstrwythuro, a chrosawyd nifer o aelodau newydd o'r staff i'n sefydliad. Gwelsom hefyd don o gefnogaeth gref i lyfrwerthwyr, ac o gyfuno hyn â gwerthiant uchel ar-lein cafwyd un o'r blynyddoedd gorau o ran gwerthiant ers 2009/10.

O ganlyniad i'r berthynas waith ardderchog sydd rhyngom ni a nifer o adrannau Llywodraeth Cymru, cafwyd ymateb cadarnhaol i nifer o geisiadau i'n galluogi i fynd i'r afael â meysydd yr hoffem roi mwy o gefnogaeth iddynt. Ym mis Tachwedd, cymeradwyodd yr Adran Addysg brosiect cenedlaethol gwych gwerth £4.6 miliwn i roi llyfrau'n anrheg i ysgolion a dysgwyr, a hwnnw'n cynnwys, am y tro cyntaf, elfen gymunedol gyda banciau bwyd yn derbyn llyfrau ar gyfer defnyddwyr eu gwasanaeth.

Cafwyd ymateb cadarnhaol gan Gymru Greadigol, ein cyllidwyr ar ran Llywodraeth Cymru, i'n cais am Gronfa Cynulleidfaedd Newydd, a chawsom £610,000 o arian ychwanegol i fuddsoddi mewn cynyddu'r cyfleoedd yn y sector llyfrau i bobl o gymunedau

a dangynrychiolir yma yng Nghymru. Ym mis Mawrth derbyniwyd y gyfran gyntaf o geisiadau am gyllid, a bydd cyfleoedd pellach yn ystod 2022/23.

Erys sicrhau cynrychiolaeth deg ar draws y sector, a'r cynnwys rydym yn ei ariannu, yn flaenoriaeth strategol ac mae'r buddsoddiad sylweddol hwn yn gam cyntaf hollbwysig tuag at gyflawni newid positif parhaol. Bydd adeiladu ar bartneriaethau sy'n bodoli eisoes gydag ysgolion, llyfrgelloedd a llyfrwerthwyr, Llenyddiaeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Eisteddfod yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol, Race Council Cymru a Disability Arts Cymru, yn ogystal â sefydliadau cymunedol ar lawr gwlad, yn ganolog i'n

hymdrech i gyflawni ein nodau strategol dros y pum mlynedd nesaf.

Testun diolch o waelod calon a pheth tristwch i mi yw gweld ein Cadeirydd, yr Athro M. Wynn Thomas, yn ymddeol eleni. Mae ei uchelgais ar gyfer elusen wirioneddol genedlaethol sy'n gwasanaethu Cymru gyfan a'i gefnogaeth ddiflino wrth i ni gyflawni'r nod hwnnw yn achos dathlu. Fel Prif Weithredwr, ni allwn fod wedi dymuno

cael gwell Cadeirydd; yn uchelgeisiol, yn dreiddgar, yn chwilfrydig ac eto'n ddi-ffael o garedig a llawn synnwyr digrifwch, mae ei arweinyddiaeth wedi ein helpu ni i gyd i oresgyn rhai cyfnodau heriol gan greu sefydliad cryfach o'r herwydd.

Rwy'n ddyledus iawn i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n rhoi'n hael o'u hamser, eu cefnogaeth a'u harbenigedd, ac felly hefyd aelodau ein hisbwyllgorau a'n panelau beirniaid – ni allem wneud ein gwaith oni bai amdanynt hwy. Rwy'n ffodus a diolchgar am gael arwain sefydliad lle mae cydweithwyr ym mhob rhan o'r strwythur ac ar bob lefel yn dangos eu gallu, eu gwytnwch a'u hymroddiad o ddydd i ddydd, ac yn parhau i gyfrannu tuag at wireddu ein cynllun strategol uchelgeisiol.

Ac, fel erioed, ni allai'r rhan yma o'n diwydiannau creadigol ni yng Nghymru fodoli oni bai am ddychymyg awduron, darlunwyr a chyhoeddwyr, ac rwy'n hynod ddiolchgar am eu cydweithrediad parhaus. **Helgard Krause**



Sbarduno cariad at ddarllen

Ym mis Tachwedd 2021, a ninnau newydd orffen nodi ein pen-blwydd yn 60 oed, cawsom reswm arall i ddathlu. Cyhoeddodd Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, fuddsoddiad o sawl miliwn mewn ymgysylltu â darllen gan Lywodraeth Cymru, ac ymgyrch fawr i roi llyfrau yn anheg er budd plant a phobl ifanc ledled Cymru.

Ychydig fisoedd yn ddiweddarach, ac ar ôl ymgyngori â disgyblion o ysgolion

cynradd ac uwchradd ledled y wlad, roedd ymgyrch



Detholiad o'r llyfrau ar gyfer banciau bwyd a grwpiau cymunedol

Caru Darllen Ysgolion ar y gweill. Yng ngham cyntaf y rhaglen ym mis Mawrth, darparwyd dros 40,000 o lyfrau i fanciau bwyd, sefydliadau cymunedol a grwpiau lleol eraill i sicrhau bod llyfrau ar gael i blant a phobl ifanc yn eu cymunedau lleol ac i ddarparu dewis o adnoddau darllen diddorol ac o ansawdd uchel i deuluoedd eu defnyddio gartref.

Yn ystod y cynllun, y byddwn yn parhau i'w gyflawni yn 2022/23, bydd cannoedd o filoedd o lyfrau yn hedfan i mewn ac allan o'r Ganolfan Ddosbarthu fel rhan o'r prosiect rhoi llyfr yn anheg mwyaf uchelgeisiol a chyffrous i ni ei reoli erioed. Ar ran Llywodraeth Cymru, byddwn yn cyflwyno detholiad o tua 50 llyfr am ddim i bob ysgol wladol yng Nghymru. Yn ogystal, bydd pob disgybl yn derbyn llyfr unigol o'i ddewis ei hun i'w gadw.

Ni allem gyflwyno'r rhaglen hon heb gefnogaeth barhaus y cyhoeddwr, y llyfrwerthwr a'r ysgolion sydd wedi croesawu'r cynllun yma i danio angerdd at ddarllen ymhlith plant a phobl ifanc ar draws Cymru.

Croesawu ein Trysorydd newydd

Ym mis Hydref croesawyd penodiad ein Trysorydd newydd, Alfred O. Oyekoya, i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Bydd y rôl bwysig hon yn allweddol wrth arwain y Cyngor wrth i ni gefnogi'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru trwy adferiad Covid, gan fwrw'n golygon tuag at ein strategaeth newydd ar gyfer 2022 a thu hwnt.


Graddiodd Alfred Oyekoya gydag MSc Cyllid o Brifysgol Abertawe ac mae'n Gyfrifydd Siartredig, gyda phrofiad o arweinyddiaeth a datblygu busnes dros nifer o flynyddoedd. Mae wedi gweithio ar draws nifer o sectorau rhyngwladol a masnachol gan gynnwys Gwasanaeth Sifil y Deyrnas Unedig.

Mae Alfred yn eiriolwr egniol, penderfynol ac ymroddedig dros Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Ef yw sylfaenydd a Chyfarwyddwr BMHS – sefydliad dielw sy'n canolbwyntio ar addysg ac eiriolaeth i gefnogi iechyd meddwl a lles ymhlith aelodau cymunedau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Wrth siarad am ei apwyntiad, dywedodd Alfred: "Y mae'n ffrainc cael fy mhenodi ac rwy'n gyffrous am y cyfle i barhau â'r gwaith gwych sydd wedi'i gyflawni mor rhagorol dros y trigain mlynedd diwethaf."

Dywedodd yr Athro M. Wynn Thomas, Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr: "Rydym yn falch iawn o groesawu Alfred fel Trysorydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Cyngor Llyfrau Cymru.

Daw â phrofiad sylweddol o arweinyddiaeth yn y maes ariannol ac ym myd busnes, a ddatblygwyd trwy ei waith blaenorol ar gyfer un o weinyddiaethau Llywodraeth Prydain. Yn ogystal, mae ganddo brofiad gwerthfawr o arwain y sefydliad dielw BMHS. Rwyf fi a'm cyd-aelodau o'r Bwrdd yn edrych ymlaen yn fawr at gydweithio ag Alfred i ddatblygu gwaith y Cyngor."




Dathlu 60 mlynedd o Gyngor Llyfrau Cymru

Ym mis Tachwedd, nodwyd ein pen-blwydd yn 60 oed gydag wythnos lawn o weithgareddau i gydnabod a dathlu 60 mlynedd o gefnogi'r diwydiant llyfrau yng Nghymru, a hyrwyddo darllen er pleser. Drwy gyfrwng dau lyfr a gomisiynwyd yn arbennig, a dwy ffilm fer, amlygwyd gwaddol a gwaith y Cyngor Llyfrau o 1961 hyd heddiw, a'r diwydiant bywiog, creadigol a chyffrous rydym yn falch o'i gefnogi.

Er i ni hefyd, wrth gwrs, fanteisio ar y cyfle i rannu atgofion am y gorffennol (Sbondonics, unrhyw un?!), uchafbwynt yr wythnos hon o ddathlu oedd ffocysu ar edrych i'r dyfodol wrth i ni lansio ein cynllun strategol pum mlynedd am y cyfnod 2022–27, **Cymru: Cenedl o**

Ddarllenwyr. Mae'n amlinellu'r modd y byddwn yn parhau â'n cenhadaeth i gefnogi'r diwydiant cyhoeddi a hyrwyddo darllen yng nghyd-destun adferiad ar ôl Covid, gan gyfrannu at Raglen Lywodraethu a Datganiad Llesiant Llywodraeth Cymru, a chefnogi'r diwydiant i ymateb i gyfleoedd a heriau'r dyfodol. Rydym eisoes wedi cychwyn ar lawer o'r gwaith cyffrous hwn, ac yn edrych ymlaen at allu cael effaith barhaol a phositif dros gyfnod y cynllun a thu hwnt. Gallwch lawrlwytho'r strategaeth o'n gwefan, llyfrau.cymru.



Dyfarnu cyllid i ddau Wasanaeth Newyddion Digidol Cymraeg

Yn ystod y flwyddyn hon fe ddyfarnwyd y tendr ar gyfer y Gwasanaeth Newyddion Digidol am y cyfnod Ebrill 2022–Mawrth 2026 yn dilyn proses tendro agored. Am y tro cyntaf rhannwyd y grant o £200,000 rhwng dau wasanaeth: Golwg360, gwasanaeth poblogaidd a fydd yn gyfarwydd i lawer o ddarllenwyr Cymraeg, sy'n rhan o gwmni Golwg Cyf, a Corgi

Cymru sy'n wasanaeth newydd sbon ac yn rhan o gwmni Newsquest. O Ebrill 2022 bydd gan ddarllenwyr Cymru ddewis ychwanegol o ddarparwr newyddion yn Gymraeg.



CORGI
CYMRU

golwg360



Lansio Gorau'r Goreuon: cyflwyno hen ffefrynnau i ddarllenwyr newydd

Ym mis Awst lansiwyd tri theitl cyntaf Gorau'r Goreuon, sef detholiad o glasuron Cymraeg i blant a phobl ifanc sydd wedi cael eu hailgyhoeddi ar gyfer cenedlaeth newydd o ddarllenwyr.

Y teitlau a gyhoeddwyd yn y flwyddyn gyntaf yw *Dirgelwch y Dieithryn* gan Elgan Philip Davies, *O'r Tywyllwch* gan Mair Wynn Hughes a *Luned Bengoch* gan Elizabeth Watkin-Jones.

Fe gomisiynwyd y gyfres i ymateb i un o argymhellion Dr Siwan Rosser o Brifysgol Caerdydd a gynhaliodd arolwg o lyfrau plant a phobl ifanc i ni yn 2016/17. Mae'r gwaith hwnnw wedi llywio llawer o waith y Cyngor Llyfrau yn y maes hwn ers hynny. Un o'i hargymhellion oedd:

“Dylid ystyried ailgyhoeddi llyfrau poblogaidd Cymraeg neu ‘glasuron’ o'r gorffennol, a'u diweddarau yn rhan o *genre* neu gyfres benodol er mwyn creu marchnad ac iddi frand cynhenid cryf sy'n para o un genhedlaeth i'r llall.”

Sefydlwyd panel o arbenigwyr ym maes llenyddiaeth plant a phobl ifanc i ddedol o blith y teitlau y gellid eu cynnwys

ar y rhestr gychwynnol hon.

Cyhoeddwyd *Luned Bengoch* yn wreiddiol ym 1946 gan Wasg y Brython, ac yna diweddarwyd y cynnwys gan Hugh D. Jones a'i ailgyhoeddi gan Wasg Gomer ym 1983. Gwasg Gomer hefyd oedd cyhoeddwr *O'r Tywyllwch* ym 1991 a *Dirgelwch y Dieithryn* ym 1993, y naill yn rhan o gynllun Gwreiddiau a'r llall yn rhan o Gyfres Corryn.

Ychydig iawn o waith golygyddol oedd ei angen ar y tair stori gyntaf i gael eu dewis ar gyfer y gyfres, i'w gwneud yn addas ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd cyfoes. Rhan o'r gwaith o ddod â nhw'n fyw i ddarllenwyr newydd oedd aiddychmygu'r cloriau, ac rydym wedi comisiynu tri artist cyfoes i ddylunio'r cloriau: Efa Blossé-Mason, Chris Iff a Nia Tudor.

Y bwriad yw ychwanegu at y gyfres yn ystod y blynyddoedd nesaf, ac rydym yn gobeithio derbyn argymhellion gan y cyhoeddwr a'r cyhoedd am deitlau eraill i'w cynnwys yn y casgliad.

Cefnogi siopau ledled Cymru a thu hwnt

Rydym wedi ehangu ein sylfaen cwsmeriaid yng Nghymru gyda siopau llyfrau megis Siop y Pentan, Llanelli, Cyfoes, Llandeilo a Ffloc yng Nghaerdydd; a hefyd o fewn y Deyrnas Unedig rydym yn gweithio gyda Books etc., Blackwells a Findel. Mae'r siopau yr ydym yn eu cefnogi yn amrywio o emporiwm gemau a chastell i ganolfan arddio, ac rydym yn gobeithio ehangu ymhellach fel bod llyfrau ar gael ym mhob math o safleoedd manwerthu. Yn 2021/22 hefyd, gwelwyd ehangu ar ein gwasanaeth dosbarthu i gartrefi i'r siopau llyfrau, gyda thros 1,000 o barseli'n cael eu hanfon yn uniongyrchol at gwsmeriaid ar ran y siopau llyfrau. Mae'r datblygiad hwn nid yn unig yn caniatáu i siopau llyfrau gystadlu a chynig gwasanaeth da, ond mae hefyd yn well i'r amgylchedd gyda llai o filltiroedd i'w teithio.

Ehangu e-lyfrau

Mae Ffolio, plattform e-lyfrau a grëwyd yn Ionawr 2021, yn parhau i dyfu, o ran y nifer o e-lyfrau sydd ar gael, a hefyd mewn partneriaeth â Bolinda i sicrhau bod amrywiaeth o e-lyfrau ar gael mewn llyfrgelloedd cyhoeddus. Mae'r niferoedd benthyca yn galonogol a gobeithiwn y byddant yn argyhoeddi llyfrgelloedd i fuddsoddi mewn e-lyfrau Cymraeg yn y dyfodol.

Siop y Pentan, Llanelli

Dianc i fyd y llyfrau

Yn ystod y cyfnod clo, trodd llawer ohonom at lyfrau at ddibenion lles, cysur ac adloniant. Wrth i'r diwydiant ymateb i heriau'r pandemig, llwyddodd hefyd i wella ein mynediad i fyd llyfrau Cymreig, gyda chynnydd yn y nifer o deitlau o Gymru oedd ar gael mewn gwahanol fformatau, megis e-lyfrau a llyfrau llafar, a chan ddod â rhagor ohonom yn nes at yr awduron oedd wedi eu creu, trwy gyfrwng digwyddiadau ar-lein a phodlediadau.

Does dim byd gwell na chlywed o lygad y ffynnon gan awduron yn trafod eu

syniadau, eu profiadau a'u hargymhellion yn gysylltiedig â'r llyfrau rydym wedi eu mwynhau. Dyma rai o'r podlediadau a gefnogwyd gennym, i gynnig ysbrydoliaeth yn ymwneud â darllen:

Colli'r Plot Gyda Bethan Gwanas, Dafydd Llewelyn, Sian Northey a Manon Steffan Ros.

Caru Darllen Podlediad oddi wrth Gyngor Llyfrau Cymru. Gofod i drafod llyfrau o bob math gyda gwahanol westeion.

Podlediad Barddas Y lle i glywed sgysiau rhwng beirdd gorau Cymru.



barddas



Ein blwyddyn mewn rhifau

42,065

o lyfrau wedi'u dosbarthu i gyd i **152** o fanciau bwyd a grwpiau cymunedol



187

o lyfrau Cymraeg wedi eu cefnogi gan grantiau



132

o lyfrau Saesneg wedi eu cefnogi gan grantiau

60

mlynedd o gefnogi'r diwydiant cyhoeddi a dathlu darllen



140

o ysgolion wedi cymryd rhan yng nghynllun cysgodi Gwobr Tir na n-Og



433

o e-lyfrau wedi'u rhoi ar Ffolio



27,950 kWh

o drydan wedi ei gynhyrchu gan y paneli solar, sy'n arbed tua **15.7** tonnelli o CO2 y flwyddyn



253

o archebion rhyngwladol wedi'u hanfon i **24** o wledydd gwahanol

650,753

o lyfrau wedi eu hanfon allan gan y Ganolfan Ddosbarthu



1,171

o eitemau newydd wedi eu hychwanegu at yr ystod sydd ar gael o'r Ganolfan Ddosbarthu



388

o siopau wedi eu gwasanaethu

